# IAITH CYF

**(Cwmni Cyfyngedig trwy Warant)**

**ADRODDIADAU ARIANNOL**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2014**

**(Rhif y Cwmni 02803324)**
**(Rhif Elusen 1130052)**

**IAITH CYF**

**CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | 2-5 |
| Adroddiad yr Archwilwyr | 6-7 |
| Datganiad o Symudiadau | 8 |
| Mantolen | 9 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 10-17 |

**IAITH CYF**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR**

Mae'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr o'r elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r darpariaethau yn y 'Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau', argraffwyd ym mis Mawrth 2005, wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yma.

**MANYLION GWEINYDDU A CHYFEIRNOD**

| | |
|---|---|
| **Rhif Cofrestru :** | 02803324 |
| **Elusen Cofrestredig Rhif:** | 1130052 |
| **Swyddfa Gofrestredig:** | Uned 3<br>Parc Busnes Aberarad<br>Castell Newydd Emlyn<br>Sir Gaerfyrddin<br>SA38 9DB |
| **Archwilwyr:** | Ashmole & Co.<br>Yr Hen Ysgol<br>Y Cei<br>Caerfyrddin<br>Sir Gaerfyrddin<br>SA31 3LN |

**Ymddiriedolwyr**

R Dafydd
D R Davies
O Llywelyn
S Williams
G Jones
Cyng A L Jones
E Lewis
Dr D Davies

**Ysgrifennydd y cwmni**

G Ioan

**IAITH CYF**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR**

**CYCHWYN GWEITHGAREDDAU**
Ymgorfforwyd y Cwmni ar 25fed Mawrth 1993 a chafodd statws elusennol ar 9fed Mehefin 2009.

**STRWYTHUR, TREFN LLYWODRAETHU A RHEOLAETH**

**Dogfen rheoli**
Mae'r elusen yn gwmni cyfyngedig o dan warant heb gyfranddaliadau fel diffiniwyd gan y Ddeddf gwmnïau 2006.

**Ymddiriedolwyr**
Nodwyd aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau) a gwasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ar ddyddiad yr adroddiad yma uchod. Penodwyd ymddiriedolwr gan yr aelodau yn y cyfarfod blynyddol neu gan yr ymddiriedolwyr lle mae swydd wag. Mae angen o leiaf tri ymddiriedolwr ar IAITH ac nid oes rhif uchafswm.

**Hyfforddiant ac Anwytho Ymddiriedolwyr**
Pan apwyntiwyd ymddiriedolwyr newydd, maent yn cael cynnig derbyn gwybodaeth am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Mae hwn yn cynnwys hyfforddiant ar weithdrefnau a pholisïau'r cwmni, gan gynnwys asesiad o'r anghenion hyfforddi. Mae gan yr elusen bolisi o gynnig hyfforddiant penodol i bob ymddiriedolwyr ar eu rôl a'u cyfrifoldebau.

**Strwythur trefniadaeth**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd pob chwarter. Penodwyd swyddogion gweithredol gan yr ymddiriedolwyr i reoli gweithgareddau dyddiol yr elusen dan arweiniad y Prif Weithredwr, sydd hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Cwmni. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwarantu i gyfrannu uchafswm o £1 at asedion y cwmni mewn achos lle rhaid dirwyn y cwmni i ben.

**ADOLYGIAD RISG**
Mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ddyletswydd i adolygu a nodi unrhyw risg mae'r elusen yn ei adnabod, gan hefyd sicrhau bod rheolaeth a gweithdrefnau perthnasol mewn lle i roi sicrwydd rhesymol rhag twyll ac unrhyw wallau. Asesir risgiau tebygol yn chwarterol mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ar sail Adroddiad y Prif Weithredwr.

**AMCANION A GWEITHGAREDDAU**
Prif amcan yr elusen yw cynnal canolfan ragoriaeth mewn polisi a chynllunio iaith sy'n cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg a ieithoedd rhanbarthol eraill. Amcanion yr elusen yw: cynnal ymchwil a phrosiectau datblygol mewn perthynas a pholisi a chynllunio iaith; hyrwyddo gweithgareddau addysgiadol a hyfforddiant proffesiynol yn y maes; a darparu cyngor, cefnogaeth a gwasanaeth i gynorthwyo sefydliadau i ddatblygu arferion dwyieithog. Mae'r elusen yn darparu budd i'r cyhoedd drwy'r amcanion uchod a thrwy hyrwyddo'r defnydd o ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol megis y Gymraeg. Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried y cyfarwyddyd a rhoddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd i'r cyhoedd.

**LLWYDDIANNAU A PHERFFORMIAD YR ELUSEN**

**Gweithgareddau elusennol**
Rhoddir adolygiad o lwyddiannau a pherfformiadau'r elusen gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**IAITH CYF**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR**

**ADOLYGIAD ARIANNOL**

**Polisi cronfeydd**

Mae'r ymddiriedolwyr wedi sefydlu polisi lle dylai cronfeydd cyffredinol, sydd heb ei fuddsoddi neu wedi eu hymrwymo mewn asedion sefydlog, fod rhwng 3 a 6 mis o wariant cyffredinol, sy'n cyfartalu rhwng £110,000 i £225,000 mewn cronfeydd wrth gefn. Ar y lefel hwn, teimlai'r ymddiriedolwyr bydd yr elusen yn medru parhau i weithredu mewn achos o ddiffyg incwm sylweddol. Ar hyn o bryd, mae'r cronfeydd ar gyfartaledd, dros y dair blynedd diwethaf yn rhedeg ar gwarged o £12,433 (cyn y diffyg ar y cynllun pensiwn diffiniedig) ac nid yw hwn yn cyrraedd y nod a sefydlwyd. Mae'r ymddiriedolwyr felly yn ystyried yn barhaus sut gall y targed yma ei gyflawni. Mae adolygiad pellach wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn gyda chwtogiad amserol mewn oriau staff a phwyslais pellach ar farchnata a dwyn gwerth i weithgareddau. Mae'r ymddiriedolwyr yn hyderus, wrth fonitro a pharatoi cynllun cyllideb gofalus, y ceir canlyniadau gwell am y flwyddyn i ddod. Mae'r arwyddion dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn gadarnhaol. Paratoi'r datganiadau ariannol ar y dybiaeth, felly, y bydd yr elusen yn parhau'n hyfyw.

**Cronfeydd mewn diffyg**

Adroddwyd canlyniadau'r elusen yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalen 8. Mae'r diffyg net o weithgareddau cyffredinol, cyn colledion yn ôl ystadeg yswiriant ar y cynllun pensiwn, yn dangos gwarged o £14,399. Mae hwn ar ôl costau ychwanegol cyllidol y cynllun pensiwn o £4,000 (2013:£10,000).

Mae'r incwm net o weithgareddau cyfyng yn dangos diffyg o £6,036 (2013: gwarged o £22,552).

Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn bod rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn wedi ei ddarparu amdano'n briodol ac maent yn hyderus bydd y diffyg yn cael ei dileu dros y tymor hir.

**Polisi buddsoddi ac amcanion**

Rheolwyd pwerau buddsoddi'r ymddiriedolwyr gan y Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad. Mae gan yr ymddiriedolwyr bolisi o gadw unrhyw arian fel ased llifol mewn cyfrifon cadw byr dymor, llog uchel, a gall eu mynychu'n rhwydd. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn nad oes gan yr elusen ddigon o arian wrth gefn i ystyried buddsoddi mewn ffurfiau eraill ar hyn o bryd.

**Datblygiadau'r dyfodol**

Mae crynodeb o ddatblygiadau'r dyfodol ar gael yn adroddiad y Prif Weithredwr sydd i'w gyflwyno yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr:**

Yr Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwr o gwmni IAITH Cyfyngedig at ddiben deddfwriaeth cwmnïau) sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ariannol yn unol â'r deddfwriaeth berthnasol ac Ymarferion Cyfrifyddol Cyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig.

**IAITH CYF**

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR**

Yn ôl y ddeddf ar gyfer cwmnïau, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer bob flwyddyn ariannol a fydd yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson
- ddyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth;
- baratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd y cwmni yn dal i weithredu os nad yw'n amhriodol i dybio hyn.
- arsylwi'r dulliau a'r egwyddorion yn yr adroddiad ' Datganiadau o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau'.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni'n gymharol gywir ar unrhyw adeg a hefyd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i warchod asedion y cwmni ac yna i gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu afreoleidd-dra arall.

**DATGANIAD O WYBODAETH A DDATGELWYD I'R ARCHWILWYR**

Yn ôl dealltwriaeth yr ymddiriedolwyr, nid oes yna unrhyw wybodaeth berthnasol (fel diffiniwyd gan Adran 418 o'r Ddeddf Gwmnïau 2006) nid yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol o, ac mae pob ymddiriedolwr wedi cymryd bob cam bosib fel disgwylir i ymddiriedolwr, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliedig ac i sicrhau bod archwilwyr yr elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth hynny.

**ARCHWILWYR**

Cynigwyd i ail-benodi Ashmole a'i Gwmni, Cyfrifwyr Siartredig fel archwilwyr i'r cwmni yn ystod y flwyddyn.

Cymeradwywyd gan yr ymddiriedolwyr ar 10 Gorffennaf 2014 a'i llofnodwyd ar eu rhan gan:

...............................
Mr O Llywelyn
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

**IAITH CYF**

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNOL I AELODAU**

Archwiliwyd cyfrifon Iaith Cyf. am y flwyddyn yn diweddu'r 31 Mawrth 2014 sydd yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol a'r polisiau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer aelodau'r cwmni yn unig, yn unol ag Adran 43 Deddf Elusennau 1993 a rheoleiddiadau dan adran 44 o'r Ddeddf hynny. Gwnaethwyd y gwaith archwilio er mwyn ein galluogi i adrodd yr hyn yr oedd cyfrifoldeb arnom i gynnwys yn adroddiad yr archwilwyr yn unig, ac i ddim pwrpas ychwanegol. Hyd eithaf yr hyn ganiateir gan gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymeryd cyfrifoldeb i unrhyw gorff yn ychwanegol i'r cwmni a'r aelodau am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad a'r barn ffurfiwyd gennym.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr**
Mae cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr (Cyfarwyddwyr) am baratoi cyfrifon yn unol â'r gyfraith berthnasol a safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Egwyddor Cyfrifeg Cyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig) wedi eu nodi yng nghyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi datgan fod ei adroddiad ariannol i'w harchwilio yn unol a Deddf Elusennol 1993 yn hytrach na Deddf Cwmniau 2006. Gan hynny fe'n penodwyd ni fel archwilwyr yn unol â adran 43 o'r Ddeddf Elusennol 1993 ac i fynegi ein barn yn unol âg adran 44 o'r ddeddf hynny.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r cyfrifon gan dalu sylw at gyfraith a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon).

Byddwn yn llunio a mynegi ein barn i chwi gan ddatgan os yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg, ac os yr ydynt wedi eu paratoi yn unol â Deddf Cwmniau 2006. Byddwn hefyd yn mynegi i chwi os, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn gyson â'r hyn sydd yn y cyfrifon.

Yn ychwanegol byddwn yn adrodd i chwi, os yn ein barn ni, nid yw'r elusen wedi cadw cofnodion priodol, neu pe na fyddwn wedi derbyn yr esboniadau â'r eglurhadau angenrheidiol i'r archwiliad, neu os na ddatgelir gwybodaeth benodol sy'n hanfodol drwy gyfraith ynglyn a chyflogau'r ymddiriedolwyr a'u trafodion gyda'r cwmni.

Rydym wedi darllen Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ac wedi ystyried y oblygiadau i'n hadroddiad petaem yn dod yn ymwybodol o unrhyw gam-ddatganiadau a gynhwysir ganddynt.

**Sail ein Barn**
Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn golygu archwilio, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y cyfrifon. Mae hefyd yn cynnwys asesu'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau perthnasol a wnaeth yr Ymddiriedolwyr wrth iddynt baratoi'r cyfrifon a phenderfynu a yw'r polisau cyfrifo yn briodol ar gyfer amgylchiadau'r Cwmni, a ydynt yn cael eu defnyddio mewn ffordd gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chynhaliwyd ein harchwiliad er mwyn cael gafael ar yr holl wybodaeth a phob eglurhad y tybiwyd eu bod yn angenrheidiol er mwyn i ni gael digon o dystoliaeth i fedru bod yn rhesymol sicr nad oes yn y cyfrifon gamddatganiadau sylweddol, boed hynny yn sgil twyll neu anghysondeb neu gamgymeriad o fath arall. Wrth lunio'n barn, cloriannwyd hefyd a oedd y ffordd y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y cyfrifon yn ddigonol.

**IAITH CYF**

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNOL I AELODAU**

**Barn**

Yn ein barn ni:

- Mae’r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg, yn unol ag Egwyddor Cyfrifeg Cyffreddinol Derbyniol Unedig, o gyflwr ariannol y cwmni ar 31 Mawrth 2014 a’r adnoddau a ddefnyddiwyd am y flwyddyn;

- Mae’r cyfrifon wedi eu paratoi yn gywir yn unol â Deddf Cwmniau 2006;

- Mae’r wybodaeth yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn cyd-fynd a’r cyfrifon.

……………………………. Dyddiad ………….

Yr Hen Ysgol
Y Cei
Caerfyrddin
SA31 3LN

Ashmole & Co.
Cyfrifwyr Siartredig
Archwilydd Cofrestredig

**IAITH CYF.**

**DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL (Incwm a Gwariant)**

**AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2014**

| | Nodyn | Cronfa rhydd £ | Cronfeydd cyfyng £ | Cyfanswm 2014 £ | Cyfanswm 2013 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **ADNODDAU I FEWN** | | | | | |
| **Adnoddau i fewn o godi arian** | | | | | |
| Incwm gwirfoddol | 2 | 188,120 | - | 188,120 | 123,715 |
| Gweithgareddau i gynhyrchu cyllid | 3 | 204,929 | 607,133 | 812,062 | 739,843 |
| Incwm buddsoddiadol | | 7 | - | 7 | - |
| **Cyfanswm Adnoddau i fewn** | | 393,056 | 607,133 | 1,000,189 | 863,558 |
| **ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD** | | | | | |
| **Gweithgareddau elusenol** | | | | | |
| Costau prosiect | 4 | 275,554 | 556,976 | 832,530 | 661,364 |
| Costau eraill gwariwyd | 5 | 134,666 | 21,142 | 155,808 | 163,333 |
| Costau llywodraethu | 6 | 3,488 | - | 3,488 | 3,488 |
| **Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd** | | 413,708 | 578,118 | 991,826 | 828,185 |
| **Incwm net cyn trosglwyddiadau** | | (20,652) | 29,015 | 8,363 | 35,373 |
| **Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd** | | 35,051 | (35,051) | - | - |
| **Incwm a Gwariant am y flwyddyn** | | 14,399 | (6,036) | 8,363 | 35,373 |
| Enillion/(Colledion) yn ol ystadeg yswiriant ar gynllun pensiwn budd-dal diffinideg | | 382,000 | - | 382,000 | (122,000) |
| Symudiad net yn gronfeydd | | 396,399 | (6,036) | 390,363 | (86,627) |
| **Cronfa d/y** | | (487,313) | 22,579 | (464,734) | (378,107) |
| **Cronfa c/y** | | (90,914) | 16,543 | (74,371) | (464,734) |

**IAITH CYF.**

## MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2014

| | Nodyn | | 2014 £ | | 2013 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau Gweladwy a ddefnyddir gan yr elusen | 9 | | 9,288 | | 2,144 |
| | | | ---------- | | ---------- |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Dyledwyr | 10 | 63,639 | | 66,027 | |
| Arian mewn llaw ac yn y banc | | 142,569 | | 23,874 | |
| | | ---------- | | ---------- | |
| | | 206,208 | | 89,901 | |
| **CREDYDWYR – symiau'n daladwy o fewn blwyddyn** | 11 | 153,867 | | 55,779 | |
| | | ---------- | | ---------- | |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | | 52,341 | | 34,122 |
| | | | ---------- | | ---------- |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI ASEDAU CYFREDOL NET** | | | 61,629 | | 36,266 |
| | | | ---------- | | ---------- |
| **RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN** | 12 | | (136,000) | | (501,000) |
| | | | ---------- | | ---------- |
| **ASEDAU NET** | | | **(74,371)** | | **(464,734)** |
| | | | ====== | | ====== |
| **CRONFEYDD** | | | **£** | | **£** |
| Cronfeydd rhydd | | | 20,693 | | (487,313) |
| Cronfeydd cyfyng | | | (95,064) | | 22,579 |
| | | | ------------- | | ------------- |
| | | | **(74,371)** | | **(464,734)** |
| | | | ======== | | ======= |

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol a darpariaethau arbennig Rhan XV Ddeddf Cwmniau 2006 sy'n berthnasol I gwmniau bychain.

Mae'r cyfrifon wedi eu harwyddo ar ran y bwrdd gan:

…………………………………………….. (Cyfarwyddwr)

…………………………. Dyddiad

Mae'r nodiadau ar dudalennau 10 i 17 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

**IAITH CYF**

**NODIADAU I'R CYFRIFON – 31 MAWRTH 2014**

**1. Polisiau Cyfrifo**

**a) Sail Cyfrifo**

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi o dan y ddefod cost hanesyddol a'r Safon Adrodd Ariannol ar gyfer cwmniau bychain (effeithiol Ionawr 2008) a'r "SORP" 2005 ar gyfer elusennau, a deddf Cwmniau 2006.

**b) Sail paratoi'r cyfrifon ariannol**

Paratowyd y cyfrifon yn ôl rheolau cyfrifyddol o brisio hanesyddol, yn unol â'r Adroddiad Ariannol Safonol o Endidau bach (effeithiol Ebrill 2008), y Ddeddf Gwmniau 2006 ac maent yn dilyn yr argymhellion a gynhwysur yn '*Adrodd a Chyfrifo am Elusennau Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau'*

**c) Adnoddau a dderbyniwyd**

Cynhwysir incwm o fuddsoddiadau a ffynnonellau eraill pan mae gan yr elusen yr hawl cyfreithol iddynt a gall y swm ei fesur gyda sicrwydd a chywirdeb rhesymol. Gohiriwyd incwm ond pan fo'n perthyn i gyfnod arall yn y dyfodol.

**d) Adnoddau a ddefnyddiwyd**

Cydnabuwyd costau a threuliau yn y cyfnod pan yn ddyledus ac fe'u dosbarthwyd i gronfeydd ar sail costau uniongyrchol. Lle nad yw'n bosib i'w dosbarthu ar y sail yma, dosrannwyd y costau rhwng costau elusennol uniongyrchol a gweinyddiaeth ar sail cysondeb defnydd yr adnoddau. Mae costau trefn lywodraethol yn cynrycholi'r gost o weinyddu'r elusen a chwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol.

**e) Dibrisio**

Mae'r asedau sefydlog wedi eu dibrisio dros eu bywyd defnyddiol ar y cyfraddau canlynol:-

| | |
|---|---|
| Offer a pheiriannau | - 20% ar gost, a |
| | - 33% |

**f) Treth corffolaeth**

Mae'r elusen yn rhydd o dalu treth gorfforaethol ar eu gweithgareddau elusennol.

**g) Stoc**

Prisir gwaith mewn llaw ar yr isafswm o gost neu werth masnachol teg. Mae cost yn cynnwys holl wariant uniongyrchol a chyfran priodol o gostau cyffredinol penodedig a newidiol.

**h) Cronfeydd cyffredinol**

Mae Cronfeydd cyffredinol yn cynnwys rhoddion ac incwm i'w dderbyn neu a gynhyrchwyd am amcanion yr elusen heb bwrpas arbennig arall ac felly ar gael fel cronfa gyffredinol. Ni osodir amodau allanol ar gronfeydd cyffredinol ac meant ar gael i'w gwario gan yr elusen yn ôl eu hamcanion /bwriadau neu i'w neilltuo tuag at bwrpasau priodol mewnol.

Mae cronfa cyfyng yn cynrychioli arian a dderbyniwyd tuag at bwrpasau arbennig o fewn amcanion yr elusen a lle ceir amodau ar eu gwario. Codwyd gwariant sy'n ymwneud â'r nod yma i'r gronfa, ynghyd â dyraniad teg o gostau gweinyddu a rheoli. Ceir eglurhad o bob cronfa yn y nodiadau i'r cyfrifon.

**NODIADAU I'R CYFRIFON – 31 MAWRTH 2014 - parhad**

**i) Trosi arian tramor**

Troswyd asedion a rhwymedigaethau mewn arian tramor i sterling ar y graddfeydd sy'n bodoli ar ddyddiad y fantolen. Clustnodwyd gwahaniaethau mewn cyfnewid i'r datganiad o weithgareddau arianol.

**j) Les Gweithredol**

Mae lesi gweithredol yn cael eu dangos yn y cyfrif incwm a gwariant fel eu telir hwy.

**k) Pensiwn**

Mae'r cwmni yn gweinyddu cynllun pensiwn cyfraniadau wedi ei ddiffinio a chynllun pensiwn cyfraniadol. Ynglyn a'r cynllun ddiffinio, codwyd y gost achlysurol y cynllun i'r datganiad o weithgareddau ariannol ar sail cost ddisgwyliedig y staff dros ei hoes gwasanaeth. Talwyd cyfraniadau yn unol ag argymellion yr actiwari . Talwyd £24,000 (2013: £23,000) i'r cynllun yma ar swm oedd yn ddyledus i'r cynllun ar 31 Mawrth 2014 oedd £2,887.

Ynglyn â'r cynllun cyfraniadol, cydnabuwyd y gost yn y datganiad o weithgareddau ariannol yn y flwyddyn pan yn ddyledus. Y gost am y flwyddyn oedd £16,556 (2013: £12,552). Y swm yn ddyledus ar 31 Mawrth 2014 oedd £1,581.

**2. INCWM GWIRFODDOL**

| | Cronfa Rhydd | Cronfa Cyfyng | Cyfanswm 2014 | Cyfanswm 2013 |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau | 188,120 | - | 188,120 | 123,715 |
| | ----------- | ------------ | ------------ | ------------ |
| | 188,120 | - | 188,120 | 123,715 |
| | ----------- | ------------ | ------------ | ------------ |

**3. INCWM I FEWN O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthiant nwyddau | - | - | - | 853 |
| Ffioedd | 204,559 | 607,133 | 811,692 | 738,746 |
| Incwm arall | 370 | - | 370 | 244 |
| | ----------- | ----------- | ----------- | ----------- |
| | 204,929 | 607,133 | 812,062 | 739,843 |
| | ----------- | ----------- | ----------- | ----------- |

## NODIADAU I'R CYFRIFON – 31 MAWRTH 2014

**4. GWEITHGAREDDU ELUSENOL**

| | Cyfanswm 2014 £ | Cyfanswm 2013 £ |
|---|---|---|
| Costau prosiectau | 832,530 | 640,004 |

**5. COSTAU CEFNOGI**

| | Rheoli £ | Cyllid £ | Costau cynllun pensiwn £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau eraill a ddefnyddiwyd | 150,614 | 1,194 | 4,000 | 155,808 |

**6. COSTAU LLYWODRAETHU**

| | **2014** £ | **2013** £ |
|---|---|---|
| Costau proffesiynol | 13 | 13 |
| Cyfrifyddol | 1,475 | 1,475 |
| Tal archwilwyr | 2,000 | 2,000 |
| | 3,488 | 3,488 |

**7. COSTAU STAFF**

| Rhifau gweithwyr ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd | **2014** | **2013** |
|---|---|---|
| Staff ymchwil a datblygu | 20 | 18 |
| Rheoli a gweinyddol | 2 | 2 |
| | 22 | 20 |

## 8. COSTAU CYFLOGI

| | 2014 | 2013 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Staff parhaol | 508,147 | 443,644 |
| Yswiriant gwladol | 31,198 | 26,214 |
| Pensiwn | 43,310 | 32,949 |
| | ----------- | ----------- |
| | 582,655 | 502,807 |
| | ----------- | ----------- |

## 9. ASEDAU SEFYDLOG

| | **Offer a pheiriannau** |
|---|---|
| | **£** |
| **Cost** | |
| Gweddill d/y | 78,358 |
| Ychwanegiadau | 13,746 |
| Gwaredwyd | - |
| | --------- |
| Gweddill c/y | 92,103 |
| | --------- |
| **Dibrisio** | |
| Gweddill d/y | 76,214 |
| Cost y flwyddyn | 6,602 |
| Gwaredwyd | - |
| | --------- |
| Gweddill c/y | 82,816 |
| | --------- |
| **Gwerth yn y llyfrau** | |
| 31 Mawrth 2014 | 9,288 |
| | ======= |
| 31 Mawrth 2013 | 2,144 |
| | ======= |

## NODIADAU I'R CYFRIFON – 31 MAWRTH 2014

### 10. DYLEDWYR

| | 2014 | 2013 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Dyledwyr masnachol | 58,381 | 61,540 |
| Taliadau ymlaen llaw | 5,258 | 4,487 |
| | ---------- | ---------- |
| | £63,639 | £66,027 |
| | ====== | ====== |

### 11. CREDYDWYR – Symiau'n daladwy ymhen blwyddyn

| | 2014 | 2013 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Credydwyr masnachol | 83,152 | 22,712 |
| Trethi ac yswiriant gwladol | 44,017 | 22,260 |
| Credydwyr arall | 26,698 | 10,807 |
| | ------------ | ----------- |
| | £153,867 | £55,779 |
| | ======= | ====== |

### 12. OBLYGIADAU PENSIWN

Gwerth asedion a rhwymedigaethau'r cynllun

| | 2014 | 2013 |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedion y cynllun | 1,510,000 | 1,386,000 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | (1,646,000) | (1,887,000) |
| Diffyg yn y cynllun | (136,000) | (501,000) |
| Rhwymedigaeth pensiwn net | (136,000) | (501,000) |

**Symudiadau yn y diffyg am y flwyddyn**

| | 2014 | 2013 |
|---|---|---|
| Diffyg yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn | (501,000) | (364,000) |
| Cost gwasanaeth cyfredol | (37,000) | (28,000) |
| Cyfraniadau | 24,000 | 23,000 |
| Costau incwm/gwariant cyllidol net | (4,000) | (10,000) |
| (Colled)/Cynnydd yn ôl ystadeg yswiriant | 382,000 | (122,000) |
| Addasaiad cost gwasanethol oherwydd newidiadau yn buddau'r cynllun | - | - |
| Diffyg yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | (136,000) | (501,000) |

IAITH CYF

## NODIADAU I'R CYFRIFON – 31 MAWRTH 2014

### 13. DATGANIAD O ASEDAU NET Y CRONFEYDD

| | Cronfeydd cyfyng | Cronfeydd rhydd | Cyfanswm 2014 | Cyfanswm 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Asedau sefydlog | | | | |
| Asedau cyfredol | - | 9,288 | 9,288 | 2,144 |
| Rhwymedigaeth cyfredol | 16,543 | 189,665 | 206,208 | 89,901 |
| Rhwymedigaeth pensiwn | - | (153,867) | (153,867) | (55,779) |
| | - | (136,000) | (136,000) | (501,000) |
| | --------- | ----------- | ----------- | ----------- |
| | 16,543 | (90,914) | (74,371) | (464,734) |
| | ===== | ====== | ====== | ====== |

### 14. SYMUDIADIAU YN Y CRONFEYDD

| | **Gweddill d/y** | **Symudiad net mewn cronfeydd** | **Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd** | **Gweddill c/y** |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Cronfeydd cyfyng** | 22,579 | 29,015 | (35,051) | 16,543 |
| **Cronfeydd rhydd** | (487,313) | 361,348 | 35,051 | (90,914) |
| | ------------ | ------------ | ------------ | ----------- |
| | (464,734) | 390,363 | - | (74,371) |
| | ======= | ======= | ======= | ====== |

**IAITH CYF**

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL MANWL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2014**

| | 2014 £ | 2013 £ |
|---|---|---|
| **ADNODDAU A DDERBYNIWYD** | | |
| **Incwm gwirfoddol** | | |
| Grantiau | 188,120 | 123,715 |
| **Gweithgareddau i gynhyrchu cyllid** | | |
| Gwerthiant nwyddau | - | 853 |
| Ffioedd | 757,107 | 718,846 |
| Ymchwil | 54,585 | 19,900 |
| Incwm arall | 370 | 244 |
| | 812,063 | 739,843 |
| **Incwm o fuddsoddion** | | |
| Llog | 7 | - |
| **ADNODDAU DEFNYDDIWYD** | **1,000,189** | **863,558** |
| **Gweithgareddau elusenol** | | |
| Cyflogau | 508,146 | 443,644 |
| Yswiriant gwladol | 31,198 | 26,214 |
| Pensiwn | 43,310 | 32,949 |
| Ffioedd prosiectau/datblygu | 179,297 | 89,955 |
| Teithio a chynhaliaeth | 70,578 | 68,602 |
| | **832,530** | **661,364** |
| **Costau llywodraethol** | | |
| Cyfrifyddol | 1,475 | 1,475 |
| Ffioedd profesiynol | 13 | 13 |
| Tâl archwilwyr | 2,000 | 2,000 |
| | **3,488** | **3,488** |

## IAITH CYF

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL MANWL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2014

| **Costau Cefnogi** | **2014** | **2013** |
|---|---|---|
| **Rheoli** | **£** | **£** |
| Cyflogau | 33,474 | 39,709 |
| Yswiriant Gwladol | 2,109 | 2,268 |
| Pensiwn | 2,438 | 2,391 |
| Llogi offer | 4,132 | 3,784 |
| Rhent a threthu | 26,205 | 26,187 |
| Yswiriant | 2,620 | 2,494 |
| Gwres a golau | 3,377 | 3,104 |
| Ffôn | 8,288 | 9,690 |
| Post â phapur | 10,112 | 10,415 |
| Hysbysebu | 11,433 | 19,045 |
| Costau amrywiol | 919 | 1,935 |
| Hyfforddiant staff | 14,412 | 6,752 |
| Tanysgrifiadau | 1,032 | 983 |
| Llogi ystafelloedd | 3,943 | 4,970 |
| Ffi diogelu incwm | 3,595 | 3,549 |
| Rhoddion | 97 | 65 |
| Ffioedd cyfeithu | 2,265 | 3,045 |
| Meddalwedd cyfrifiadurol a chynhaliaeth | 11,144 | 7,216 |
| Cynnal a chadw | 2,417 | 2,189 |
| Dibrisiant offer | 318 | 318 |
| Dibrisiant cyfrifaduron | 6,284 | 1,701 |
| | **150,613** | **151,810** |
| **Cyllid** | | |
| Treuliau banc | 1,184 | 1,377 |
| Gwahaniaethau cyfradd cyfnewid | 3 | (1) |
| Llog banc | 8 | 147 |
| | **1,195** | **1,523** |
| **Costau Cynllun Pensiwn** | | |
| Enillion disgwyliedig ar asedau cynllun pensiwn | (80,000) | (69,000) |
| Llog ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 84,000 | 79,000 |
| | **4,000** | **10,000** |
| **Cyfanswm adnoddau a ddefnyddiwyd** | **991,826** | **828,185** |
| **Incwm/(Gwariant) net** | **8,363** | **35,373** |